

Rhentu preifat ac iechyd meddwl:

Y ffordd ymlaen



Cynnwys

	Page
1. Crynodeb gweithredol ac argymhellion	3
2. Cyflwyniad	5
3. Beth ddywedodd pobl wrthym? Cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat Cefnogaeth ar gyfer landlordiaid sector preifat y mae gan eu tenantiaid broblemau iechyd meddwl	6
4. Pa gefnogaeth sydd ar gael? Deddfwriaeth a pholisi Cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat Cefnogaeth ar gyfer landlordiaid sector preifat y mae gan eu tenantiaid broblemau iechyd meddwl	12
5. Beth yw'r bylchau?	13
6. Argymhellion	14

1. Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i lefelau'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael i denantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion i helpu pobl i gyrchu a chynnal tenantiaethau.

Ein canfyddiadau allweddol yw:

1. Teimla bron traean (32 y cant) o sefydliadau cefnogaeth **nad yw tenantiaid yn y sector rhentu preifat 'byth yn derbyn digon o gefnogaeth**
2. Teimla bron hanner (45 y cant) o landlordiaid **nad oes 'byth' digon o gefnogaeth a gwybodaeth ar gyfer landlordiaid i gefnogi tenantiaid** sydd â phroblemau iechyd meddwl
3. **Hoffai landlordiaid gael mynediad i fwy o wybodaeth a chefnogaeth** na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod mynediad i adnoddau ar-lein neu linell gymorth/adnodd penodedig ar gyfer landlordiaid preifat yn ddulliau poblogaidd o wella'r sefyllfa
4. Ceir arwyddion cryfion bod **pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl weithiau'n wynebu gwahaniaethu wrth geisio cyrchu tai yn y sector rhentu preifat**. Teimlodd dros draean (37 y cant) o sefydliadau cefnogaeth fod hyn yn wir 'bob tro' neu 'bron bob tro'
5. **Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i helpu pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl ond mae amserau aros i gyrchu gwasanaethau iechyd meddwl yn cael effaith andwyol ar allu landlordiaid a thenantiaid i gynnal eu tenantiaethau**

6. **'Cymorth ym Maes Tai' yw'r prif wasanaeth cefnogaeth** â ffocws ar gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i gyrchu a chynnal tai yn y sector rhentu preifat yng Nghymru



Mae'r adroddiad yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

Prif argymhelliad

1. Dylid Llywodraeth Cymru datblygu gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod y sector rhentu preifat mewn perthynas â chefnogaeth iechyd meddwl leol a chenedlaethol

Argymhellion wedi'u targedu

2. Dylai ail-drwyddedu trwy Rentu Doeth Cymru fynnu bod pob landlord sector preifat yn cwblhau modiwl ar iechyd meddwl i wella'u gwybodaeth am sut i gyrchu cefnogaeth ar gyfer tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl
3. Dylid cynnwys cynrychiolwyr tai sector preifat yn strwythurau llywodraethu'r rhaglen Cefnogi Pobl i gynyddu'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer tenantiaid y sector rhentu preifat sydd â phroblemau iechyd meddwl



4. Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu gwasanaethau cefnogaeth argyfwng/brys sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl yn y sector rhentu preifat er mwyn cefnogi tenantiaid i aros yn eu cartrefi eu hunain.
5. Dylai Llywodreath Cymru ymchwilio i achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl y maent yn ceisio cyrchu a chynnal tai yn y sector rhentu preifat
6. Dylai Llywodraeth Cymru gywain data ar ddeiliadaeth llety lle darperir gwasanaethau cefnogaeth arnawf er mwyn gwella cynllunio a chyflwyno gwasanaethau
7. Dylid siapio a chyflwyno gwasanaethau gyda arbenigedd a mewnwelediadau tenantiaid sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn y sector rhentu preifat

Cydnabyddiaeth

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Tai Pawb a Paul Bevan (Ymchwilydd Annibynnol).

Hoffem ddiolch i'r bobl a sefydliadau a roddodd o'u hamser ac adnoddau i alluogi ymchwilio i'r adroddiad hwn a'i ysgrifennu. Diolch i'r landlordiaid, sefydliadau cefnogaeth, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a atebodd yr arolwg ar-lein ac i Rentu Doeth Cymru, Rhwydwaith Tai Awdurdodau Lleol Cymru, y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl a Chymorth Cymru am ddsbarthu'r arolwg i'w rhwydwaith ac aelodau. Hoffem ddiolch hefyd i'r Wallich am drefnu'r grŵp ffocws ac i'r cyfranogwyr yn rhoi'n garedig o'u mewnwelediad i'w profiadau yn y sector rhentu preifat.

Yn olaf, diolch i'r bobl a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd yn y cyfweiriadau wyneb wrth wyneb a thros y ffôn: Adran Polisi Tai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhwydwaith Tai Awdurdodau Lleol Cymru, Rhentu Doeth Cymru, y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, y Gymdeithas Landlordiaid Genedlaethol, Tîm Atal Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych, Shelter Cymru, Mind Cymru, Newport Mind, Gofal a The Wallich.


2. Cyflwyniad

Mae Tyfu Tai Cymru'n brosiect polisi tai 5 mlynedd a reolir gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru sy'n canolbwyntio ar ddarparu dadansoddiad a llenwi bylchau tystiolaeth i gefnogi cynnydd mewn polisiau tai yng Nghymru. Fel rhan o'r prosiect comisiynwyd yr adroddiad hwn i adnabod camau gweithredu i wella darpariaeth cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat.

Ar adeg ysgrifennu, cafwyd ffocws sylweddol ar wella ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chael problem iechyd meddwl. Mae un o bob pedwar o oedolion yn profi problemau neu salwch iechyd meddwl rhyw bryd yn ystod eu bywyd, gydag un o bob chwech o bobl yn profi symptomau ar unrhyw adeg benodol. Ar yr un pryd, mae nifer y bobl sy'n byw mewn tai a rentir gan landlordiaid preifat wedi cynyddu er mwyn bodloni'r galw cynyddol

yng Nghymru. Erbyn 31 Mawrth 2017, amcangyfrifwyd bod 14% o'r holl anheddau'n rhai a rentir yn breifat, gyda'r nifer yn codi'n gyson yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiadau sy'n darparu manylion ychwanegol y canfyddiadau ymchwil.

Cyflawnwyd yr ymchwil gyda ddefnyddio gwybodaeth pen desg, arolygon ar-lein i landlordiaid a sefydliadau cefnogaeth, grŵp ffocws o bobl sydd wedi profi problemau iechyd meddwl ac sydd wedi byw yn y sector rhentu preifat, a chyfweliadau wyneb wrth wyneb a thros y ffôn gyda chynrychiolwyr landlordiaid sector preifat, Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a sefydliadau cefnogaeth. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar wahân ynglŷn â'r ymchwil yma gan ymweld a www.cih.org/tyfutai



3. Beth ddywedodd pobl wrthym?

Mae angen mwy o wybodaeth a chefnogaeth o'r math iawn ar yr amser iawn ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n byw yn y sector rhentu preifat

Barn gyffredin a ddaeth allan o'r arolwg, cyfweiliadau a grŵp ffocws oedd bod angen mwy o wybodaeth a chefnogaeth gan wasanaethau cefnogaeth a statudol sy'n gysylltiedig â thair; Teimlodd 38 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg nad oedd byth digon o wybodaeth a chefnogaeth.

'Y peth allweddol yw bod pobl yn derbyn cymorth a chefnogaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl pan fydd eu hangen arnynt. Mae angen i ni helpu pobl llawer yn gynt' (Sefydliad Cefnogaeth Iechyd Meddwl)


Amlygwyd angen penodol ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth argyfwng/brys 'ymateb cyflym' sy'n gysylltiedig â thair a all

ymateb yn gyflym iawn pan fydd pobl yn gofyn am gymorth, a helpu pobl i gyrchu gwasanaethau statudol os bydd angen. Mae hyn yn golygu cael cysylltiadau cryfion rhwng sefydliadau cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thair a gwasanaethau cefnogaeth iechyd meddwl statudol.

Yn siarad am yr hyn a allai fod wedi'i helpu yn y gorffennol, cofiodd aelod o'r grŵp ffocws:

'Rwy'n credu gostyngiad yn yr amserau aros i weithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, weld y cleientiaid, fel y gallant helpu, ac efallai datrys problemau'n gynt, yn hytrach na'i adael i fynd i lawr y llinell lle bydd, yn ôl pob tebyg, yn mynd yn fwy cymhleth, sy'n ei wneud yn anos gwneud unrhyw beth.' (Cyfranogwr yn y Grŵp Ffocws)

Yn fy mhrofiad i, mae digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer tenantiaid y sector rhentu preifat sydd â phroblemau iechyd meddwl (%)




Siaradodd landlordiaid am brofiadau cadarnhaol a negyddol o rentu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys rhai dulliau ymarferol o gefnogi tenantiaid.

Mae gennyf brofiad cadarnhaol iawn gan fy mod yn barod i wneud yr addasiadau bychain sydd eu hangen; e.e. Rwyf bob amser yn bresennol pan fydd rhaid i grefftwr dieithr wneud ymweliad (Landlord Sector Preifat)

Nid oes gan landlordiaid ddigon o wybodaeth a chefnogaeth ynglŷn â sut i gynorthwyo tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl

Yn fy mhrofiad i, mae digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer asiantau gosod a landlordiaid y sector rhentu preifat y mae gan eu tenantiaid broblemau iechyd meddwl (%)



Gofynnodd yr arolwg ar-lein i ymatebwyr a oeddent yn credu bod digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer asiantau gosod a landlordiaid y sector preifat gyda thenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Adborth gan y landlordiaid: Dywedodd bron 1 o bob 2 o landlordiaid nad oedd byth digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer landlordiaid.

Adborth gan Sefydliadau Cefnogaeth:

Rhannodd y sefydliadau cefnogaeth farn debyg gyda 32 y cant yn dweud nad oedd byth digon o wybodaeth a chefnogaeth.


Ategodd y cyfweiliadau wyneb wrth wyneb/ dros y ffôn yr arolwg ar-lein gyda'r rhan fwyaf o bobl yn dweud nad oedd digon o wybodaeth a chefnogaeth.

'Mae angen llwyfan i addysgu a hysbysu landlordiaid y SRhP am broblemau ac atal y canfyddiad bod pawb sydd â phroblem

iechyd meddwl yn mynd o gwmpas yn gwneud pethau drwg. Mae angen yr adnoddau i ddarparu cefnogaeth hir dymor i'r cleientiaid hyn (Ymatebwr i'r Arolwg Ar-lein)

Cadarnhaodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, y Gymdeithas Landlordiaid Genedlaethol a Rhentu Doeth Cymru y byddent yn fodlon ystyried cynnwys manylion/ dolenni i wasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth priodol ar eu gwefannau.

Yn fy mhrofiad i, mae digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer asiantau gosod a landlordiaid y sector rhentu preifat y mae gan eu tenantiaid broblemau iechyd meddwl (%)




Mae landlordiaid yn ansicr ble i gyrchu gwybodaeth a chefnogaeth

Dywedodd un o bob tri o landlordiaid wrthym nad ydynt yn gwybod ble i gyrchu gwybodaeth a/neu gefnogaeth ar gyfer tenant sydd â phroblem iechyd meddwl. O'r rhai a

atebodd yn gadarnhaol, nododd pobl adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol yn amlaf.

Nododd y cyfweiliadau fwlc mewn gwybodaeth ymysg llawer o landlordiaid am ble i gyrchu gwybodaeth a chefnogaeth hefyd.

Os oeddech eisiau gwybodaeth a/neu gefnogaeth ar gyfer tenant sydd â phroblem iechyd meddwl, ble fydddech chi'n cyrchu hon? (ticiwch bob un sy'n berthnasol (%))



'Does dim cefnogaeth na mecanwaith cefnogaeth y gellir eu cyrchu'n hawdd y mae asiantau lleol yn gwybod amdanynt o ran sut i ddelio â [thenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl] neu bwy i fynd atynt am gefnogaeth' (Sefydliad Landlordiaid)

Ymddengys fod tenantiaid y sector rhentu preifat sydd â phroblemau iechyd meddwl yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth gyfyngedig ynghylch iechyd meddwl gan landlordiaid

Nododd cyfweiliadau gyda landlordiaid a sefydliadau cefnogaeth fod y berthynas landlord sector preifat/landlord fel arfer yn un pwrpasol. Wrth gymharu'r gefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael i denantiaid tai cymdeithasol, cydnabuodd yr holl ymatebwyr fod gan landlordiaid tai cymdeithasol fwy o wybodaeth am gefnogaeth ynghyd â mynediad ati. Awgrymodd un cynrychiolydd landlordiaid ganlyniad anfwriadol o ofyn gormod gan landlordiaid preifat:

'Ni ddylai fod disgwyliad bod landlordiaid yn bodoli i fod yn gefn i denantiaid. Oherwydd, pan fyddwch yn gosod y disgwyliad hwn ar landlordiaid byddant yn tynnu'n ôl o'r farchnad (Sefydliad Landlordiaid)

Er hynny, mae angen ystyried sut y gellir cynyddu cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl mewn tai rhentu preifat - nodir un unigolyn:

'Gan feddwl am fy landlord, mae ganddo gwpl o dai, ac mae'n ddyn neis iawn . . . ond sut mae'n cael mynediad at gefnogaeth . . . Dydw i ddim yn gwybod sut y byddai, neu pam y byddai.' (Cyfranogwr yn y Grŵp Ffocws)

Mae landlordiaid y sector rhentu preifat yn agored i'r syniad o gael mynediad i fwy o gefnogaeth a gwybodaeth

Gofynnodd yr arolwg Landlordiaid ar-lein i bobl raddio 5 opsiwn i wella darpariaeth cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer landlordiaid a thenantiaid yn y sector rhentu preifat. Graddiodd landlordiaid adnodd/wefan ar-lein fel yr un mwyaf defnyddiol, a hyfforddiant/e-ddysgu fel yr un lleiaf defnyddiol. Ategwyd y canfyddiadau hyn gan y cyfweiliadau gyda'r sefydliadau landlordiaid.

Graddiodd arolwg ar-lein y Sefydliadau Cefnogaeth wasanaeth cefnogaeth arbenigol ar gyfer y sector rhentu preifat fel yr un mwyaf defnyddiol a hyfforddiant/e-ddysgu fel yr un lleiaf defnyddiol.

Awgrymodd landlordiaid y gallai'r adnodd ar-lein fod yn gronfa ddata ganolog gyda dolenni i wybodaeth leol sy'n cynnwys y Timau Cefnogi Pobl ym mhob awdurdod lleol.

Cefnogodd cyfweleion y syniad y dylai gweithwyr cefnogi gydweithio ag asiantau gosod i wella mynediad i wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl.

'Gallai Gweithiwr Cefnogi fod yn gysylltiedig ag asiantau gosod. Fe allai helpu'r broblem' (Sefydliad Cefnogaeth Iechyd Meddwl)

Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu gwahaniaethu wrth geisio cyrchu tai yn y sector rhentu preifat

Clywsom yn ein hymchwil am arferion gwahaniaethu rhai landlordiaid sector preifat yn erbyn pobl sy'n cyrchu tai yn y sector rhentu preifat, ar sail eu problemau iechyd meddwl. Adroddwyd y rhain gan ddarpar denantiaid, sefydliadau cefnogaeth a landlordiaid eu hunain. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae gan rywun sydd â phroblem iechyd meddwl hawl i herio gwahaniaethu.

Credodd bron 90 y cant o'r bobl a yrrodd ymatebion gan sefydliadau cefnogaeth fod pobl gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n ceisio cyrchu llety yn y sector rhentu preifat yn wynebu gwahaniaethu gan asiantau gosod neu landlordiaid bob amser, bron bob amser


neu weithiau. Teimlodd dros draean (37.4 y cant) o bobl o sefydliadau cefnogaeth fod hyn yn wir bob amser neu bron bob amser

Rhoddyd enghreifftiau o wahaniaethu gan sefydliadau cefnogaeth a ddywedodd wrthym:

'Mae eiddo preifat yn cael ei wrthod i gleientiaid pan fydd yr asiant yn darganfod manylion am eu hiechyd meddwl a'u cefndir, (Sefydliad Cefnogaeth)

Gall ymddangos bod cyfranogiad sefydliadau cefnogaeth yn gwella neu gyfyngu ar fynediad, gan ddibynnu ar y landlord a'i farn am y sefydliad a'r gefnogaeth. Weithiau, mae sefydliadau cefnogaeth yn cael y profiad o landlordiaid yn cysylltu â nhw i ofyn a oes ganddynt unrhyw ddarpar denantiaid, yn enwedig os oes gan y landlordiaid a'r sefydliad cefnogaeth berthnasol gwaith sefydledig.

Yn fy mhrofiad i, mae tenantiaid gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n ceisio cyrchu llety rhentu preifat yn wynebu gwahaniaethu gan asiantau gosod a landlordiaid (%)



¹ Cafwyd 91 o ymatebion gan sefydliadau cefnogaeth ar draws Cymru

4. Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Deddfwriaeth a pholisi

Mae polisiau ac arweiniad cenedlaethol cyfyngedig sy'n ffocysu ar fater cyfunedig cefnogaeth iechyd meddwl a thai rhentu preifat. Mae **rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru'n** ffrwd polisi a chyllid sylweddol mewn perthynas â chefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat. Mae'r Rhaglen yn ariannu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i helpu atal a thaclo digartrefedd, a helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain (beth bynnag eu deiliadaeth). Mae cyllideb y rhaglen tua £124.4m, gan gefnogi dros 57,000 o bobl bob blwyddyn.

Mae deddfwriaeth ddiweddar sy'n gysylltiedig â thai a chefnogaeth wedi canolbwyntio ar atal:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Law yn llaw at iechyd meddwl: Strategaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru (2012)


Cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat

Y brif gefnogaeth y gall pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ei chyrru a chynnal tai rhentu preifat yw 'cymorth sy'n gysylltiedig â thai', a ariennir gan Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru (SPPG) ac a weinyddir gan awdurdodau lleol. Darperir gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai'n bennaf gan sefydliadau trydydd sector, mae ganddynt y nod o atal digartrefedd ac yn cael eu cyflwyno mewn dwy ffordd:

a) Gwasanaethau Tai a Gefnogir - Dyma wasanaethau sy'n seiliedig ar lety gyda chefnogaeth hir dymor sy'n gysylltiedig â thai a gyflwynir ar y safle 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, yn bennaf mewn tai cymdeithasol.

b) Gwasanaethau Cefnogaeth Arnawf - Dyma wasanaethau cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl mewn pob math o ddeiliadaeth tai, gan gynnwys y sector rhentu preifat. Mae'r gefnogaeth yn galluogi pobl i reoli eu tai, gan amrywio o lefel gefnogaeth isel (e.e. 1 awr bob wythnos) i 2-3 awr y dydd, o ychydig ddiwrnodau i dros flwyddyn.

Yn ychwanegol i hyn gall cefnogi pobl ymhellach trwy Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT), gofal cartref a gwasanaethau Cyngor ar Dai.



Cefnogaeth ar gyfer landlordiaid sector preifat y mae gan eu tenantiaid problemau iechyd meddwl

Mae'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl wedi bod yn gweithio gyda'r Prosiect Drysau Agored a redir gan Tai Pawb i ennyn diddordeb landlordiaid a thenantiaid i leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn y sector rhentu preifat, gan gynnwys tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Canllaw 'Problemau Cyffredin a Sut i'w Goresgyn; Canllaw ar gyfer Tenantiaid Preifat' yn cynnwys gwybodaeth am faterion y mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu.

Mae Fforymau Landlordiaid Sector Preifat awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd i landlordiaid preifat gwrdd ag ystod eang ar fater bod yn landlord a/neu ddiweddarau landlordiaid ar faterion.

Mae sefydliadau cefnogaeth sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai'n cysylltu â landlordiaid sector preifat fel rhan o'u gwaith o helpu pobl i ddod o hyd i dai a'u cynnal.

5. Beth yw'r bylchau?

Mae'r ymchwili wedi adnabod nifer o fylchau allweddol yn y gefnogaeth sydd ar gael i denantiaid a landlordiaid.

- Nid oes gwasanaeth penodedig yng Nghymru ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat sydd â phroblem iechyd meddwl. Os bydd angen i landlordiaid sector preifat ddod o hyd i wybodaeth neu gefnogaeth ynglŷn â thenant sydd â phroblem iechyd meddwl, maent yn defnyddio'r llwybrau sydd ar gael i'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae diffyg gwybodaeth ynglŷn â chymorth iechyd meddwl i denantiaid ar gael trwy'r prif gyrff professional a rholiad dros landlordiaid yn y sector preifat
- Nid yw pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn tai rhentu preifat bob amser yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol mewn pryd i'w helpu cynnal eu tenantiaeth

- Mae bylchau yn y gefnogaeth argyfwng/frys sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl ar adegau o argyfwng iechyd meddwl. Nid yw pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mewn tai rhentu preifat bob amser yn derbyn cefnogaeth bwysig iawn pan fydd ei hangen arnynt a gallant golli eu llety ar adeg hollbwysig
- Nid yw gwybodaeth fonitro Cefnogi Pobl yn adnabod deiliadaeth tai pobl pan fyddant yn derbyn cefnogaeth. Mae hyn yn creu her wrth ddadansoddi maint anghenion pobl sy'n byw mewn tai rhentu preifat a pha gefnogaeth bellach sydd ei hangen.



6. Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn darparu arsylwad o gefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer tenantiaid sector preifat, yn seiliedig ar brofiadau cynrychiolwyr, landlordiaid, sefydliadau cefnogaeth a phobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl, sydd wedi galluogi i themâu cyffredin hysbysu'r argymhellion.

Prif Argymhelliad

1. Dylid Llywodraeth Cymru datblygu gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod y sector rhentu preifat mewn perthynas â chefnogaeth iechyd meddwl leol a chenedlaethol

Mae angen manylion llawn a chywir ar landlordiaid y gefnogaeth leol a chenedlaethol sydd ar gael, ac mae angen iddynt fedru cyrchu'r wybodaeth yn hwylus. Mae angen rhoi ystyriaeth i sut y gellir cyflawni hyn, fel:

- Gwefan a/neu gyfeiriaduron papur o wasanaethau cefnogaeth iechyd meddwl lleol a chenedlaethol.
- Gwybodaeth am a dolenni i asiantaethau priodol ar wefanau
- Llinell Gymorth/Wybodaeth ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat
- Mwy o gyfleoedd i landlordiaid gwrrd â sefydliadau cefnogaeth iechyd meddwl (e.e. mewn fforymau landlordiaid sector preifat, sgysiaid gydag asiantau gosod)

Argymhellion wedi'u Targedu

2. Dylai ail-drwyddedu trwy Rentu Doeth Cymru fynnu bod pob landlord sector preifat y cwblhau modiwl ar iechyd meddwl i wella'u gwybodaeth am sut i gyrchu cefnogaeth ar gyfer tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl

Gall dealltwriaeth well roi gwell mewnwelediad i landlordiaid i brofiadau tenantiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl a gallu gwell i gyfeirio pobl at sefydliadau cefnogaeth. Gallai hyn arwain at gefnogaeth iechyd meddwl gynt ar gyfer tenantiaid fel y bo angen, gan wella'r tebygolrwydd y bydd tenantiaethau'n cael eu cynnal.

3. Dylid cynnwys cynrychiolwyr tai sector preifat yn strwythurau llywodraethu'r rhaglen Cefnogi Pobl trwy'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i gynyddu'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer tenantiaid y sector rhentu preifat sydd â phroblemau iechyd meddwl

Dylai cyfranogiad cynrychiolwyr tai sector preifat helpu cyfeirio aelodau Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol am faterion sy'n wynebu landlordiaid er mwyn helpu penderfyniadau ar wella'r gefnogaeth sydd ar

gael ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn y sector rhentu preifat. Gallai hyn alluogi gwasanaethau cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i gydweithio'n agosach ag asiantau gosod a landlordiaid.

4. Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu gwasanaethau cefnogaeth argyfwng/brys sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl yn y sector rhentu preifat er mwyn cefnogi tenantiaid i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Yn ddelfrydol, dylai'r math hwn o wasanaeth fod ar gael ar y diwrnod y mae ei angen i alluogi pobl i gyrchu'r gwasanaethau pan fyddant yn teimlo'n barod ar eu cyfer a/neu pan fyddant mewn argyfwng. Dylai fod gan y gwasanaethau hyn gysylltiadau cryfion â Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol i alluogi cyfeiriadau cyflym i gefnogaeth ddwysach.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl y maent yn ceisio cyrchu a chynnal tai yn y sector rhentu preifat

Hysbyswyd yr ymchwiliwyr am enghreifftiau o landlordiaid sector preifat yn cyfyngu ar fynediad pobl i dai oherwydd eu problemau iechyd meddwl. Dyma fater hynod arwyddocaol ac un sydd angen ymchwilio a gweithredu arno'n fwy. Yn ogystal â mynd yn groes i ddeddfwriaeth Cydraddoldeb, mae'n debygol y bydd hyn yn creu straen a phryder ychwanegol ar gyfer pobl.

6. Dylai Llywodraeth Cymru gywain data ar ddeiliadaeth llety lle darperir gwasanaethau cefnogaeth teithiol er mwyn gwella cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â llywodraeth leol a sefydliadau cefnogaeth i gyflwyno systemau monitro gan gynnwys dadansoddiad o'r ddeiliadaeth llety lle darperir cefnogaeth i bobl trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Trwy wneud hyn gellir creu darlun lleol a chenedlaethol er mwyn deall ac ymdrin ag unrhyw ddiffyg mewn cefnogaeth arnawf yn y sector rhentu preifat.

7. Dylid siapio a chyflwyno gwasanaethau gyda arbenigedd a mewnwelediadau tenantiaid sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn y sector rhentu preifat

Gallai dull mwy strwythuredig o glywed barn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ynglŷn â'u profiad o dai rhentu preifat helpu gwella dealltwriaeth y sawl sy'n llunio polisi, landlordiaid, tenantiaid, sefydliadau cefnogaeth. Gallai hyn arwain at newidiadau cadarnhaol mewn polisi ac arfer mewn perthynas â chyrchu a byw mewn tai rhentu preifat.





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r Tîm:



Catherine May

Rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02920 741138



Matt Kennedy

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02920 741137



Matt Dicks

Cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02920 741131



Sharon Dean

Cydlynnydd Cefnogi Cwsmeriaid, CIH Cymru

E: sharon.dean@cih.org T: 02920 741131

Tyfu Tai Cymru -
Gan Fod Tai'n Bwysig